

**Pembrokeshire Public Services Board**  
**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro**



**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**  
**DYDD MAWRTH 31 IONAWR 2017 am 10.00am**  
**COLEG SIR BENFRO, HWLFFORDD**

**Yn Bresennol :**

Bernadine Rees	Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Is-Gadeirydd)
Ian Westley	Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro
Alec Don Sue Leonard	Prif Weithredwr, Porthladd Aberdaugleddau Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Tegryn Jones	Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Rob Quin	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Ian Scale	Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Dr Steven Jones (SPJ) Rowland Rees-Evans Andrea Winterton	Cyfarwyddwr Datblygu, Cyngor Sir Penfro Is-Gadeirydd, Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru Rheolwr Gweithrediadau'r De-orllewin, Sir Benfro, y Môr a Monitro, Cyfoeth Naturiol Cymru
Uwcharolygydd Ian John Paul Morris Martyn Palfreman	Heddlu Dyfed Powys Heddlu Dyfed Powys Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol, Sir Gaerfyrddin (rhan o'r cyfarfod)
<i>Yn bresennol</i> Claire George	Cydlynnydd Cynorthwyo Partneriaeth a Chraffu, Cyngor Sir Penfro
<i>Cymorth/Ysgrifenyddion</i> Nick Evans	Rheolwr Cynorthwyo Partneriaeth a Chraffu, Cyngor Sir Penfro
Lynne Richards	Cydlynnydd Cynorthwyo Partneriaeth a Chraffu, Cyngor Sir Penfro

**Ymddiheuriadau**

Dafydd Llywelyn Cyng Jamie Adams Sarah Jennings	Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Dyfed Powys Arweinydd, Cyngor Sir Penfro (Cadeirydd) Cyfarwyddwr Llywodraethu, Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sharron Lusher Helen Matthews	Pennaeth, Coleg Sir Benfro Rheolwr Hŷn Cysylltiadau Allanol, Canolfan Byd Gwaith

Dechreuodd y cyfarfod am 10.05am

### 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Cyflwynodd pawb ei hun a derbyniwyd ymddiheuriadau gan y bobl a restrir uchod.

### 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mercher 30 Tachwedd 2016 yn gywir.

### 3. Cofnod Gweithredu

Digwyddiad 'Gweithio Gyda'n Gilydd, Diogelu Pobl Sy'n Agored i Niwed' Staff Rheng Flaen – Roedd y digwyddiad i gael ei gynnal yn hwyrach y diwrnod hwnnw yn Archifau Sir Benfro. Byddai adroddiad ar ganlyniad y digwyddiad yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

Dosbarthu gwahoddiad ysgrifenedig i'r holl bartneriaid i gyfrannu £5,000 tuag at ariannu adnodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - Gofynnodd BR i'r partneriaid nad oedd wedi ymateb eto i wneud hynny cyn gynted â phosibl. Nododd NE fod pum ymateb wedi ei dderbyn hyd yn hyn ac mae cymysg oedden nhw. Roedd sawl partner wedi gofyn am ragor o fanylion ynglŷn â beth fyddai diben yr arian. Dywedodd AW a SL na fyddent yn gallu cyfrannu'n ariannol ond y gallent gyfrannu staff a nododd RQ fod y Gwasanaeth Tân wedi cyflogi Swyddog Cynorthwyo i gynorthwyo gyda gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn yr holl feysydd roedd y Bwrdd ynghlwm â nhw.

Gwnaed yn glir gan NE nad ariannu swydd oedd pwrpas y cyfraniad ond ariannu gwaith prosiect, gan y byddai'r broses o ddatblygu'r Cynllun Llesiant yn gofyn am waith y byddai angen arian i'w gwblhau. Awgrymodd IW y byddai cael adnodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dangos ymrwymiad tuag at beth roedd y Bwrdd yn ceisio ei gyflawni. Cytunwyd y byddai'r mater o ariannu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei godi gyda Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r cais uchod.

Gwobrau Balchder Sir Benfro – Amlinellodd SPJ y cynnig yn fras, a oedd wedi cael ei godi yng ngweithdy mis Medi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd peth gwaith ar ôl i'w gwblhau ar fanylion y cynnig ond roedd yn gobeithio y byddai'r gwobrau'n dechrau ddiwedd mis Chwefror.

Digwyddiad Rhannu Data/Gwybodaeth - Dyma awgrym arall a wnaed yng ngweithdy mis Medi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dwedodd NE ei fod wedi trafod y syniad o gynnal digwyddiad ar y cyd gyda Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn ystod yr haf. Byddai rhagor o fanylion yn dilyn maes o law.

Grŵp Gorchwyl a Gorffen Eiddo– Roedd angen trefnu cyfarfod arall yn dilyn cynnig RQ i gadeirio cyfarfodydd y Grŵp yn y dyfodol. Nododd fod y Gwasanaeth Tân a'r Heddlu bellach yn rhannu cyfleusterau yn Nhyddewi a bod cynlluniau'n mynd rhagddynt i ddatblygu cyfleusterau gweithdy ar y cyd i wasanaethu cerbydau yn Hwlfordd .

#### 4. Asesiad Llesiant

Nododd NE fod drafft terfynol Asesiad Llesiant Sir Benfro wedi cael ei ddsbarthu i'r partneriaid. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r fersiwn hwn er mwyn i'r broses ymgynghori allu dechrau ar 16 Chwefror, os oedd digon o amser i'w chyfieithu i'r Gymraeg. Atgoffodd NE y partneriaid fod y ddogfen yn cael ei datblygu o hyd a bod digon o gyfle i'r partneriaid fod yn rhan o ffurfio'r ddogfen derfynol. Er bod y ddogfen wedi cael ei drafftio fel dogfen i'r bartneriaeth, cymysg oedd ymateb y partneriaid hyd yn hyn. Y gobaith oedd y gallai'r partneriaid gytuno mewn egwyddor y gellir defnyddio'r ddogfen er mwyn ymgynghori ac y byddai adroddiad ar y broses ymgynghori'n cael ei gyflwyno'n y cyfarfod nesaf.

Yna trafododd y Bwrdd bob adran o'r ddogfen yn fanwl, a'r partneriaid yn mynegi pryder am ddiffyg data neu am feysydd ble'r oedd angen rhagor o wybodaeth.

Cytunodd y partneriaid mai'r Asesiad Llesiant oedd man cychwyn y broses o ddatblygu Cynllun Llesiant a'i bod yn ddogfen fyw oedd yn cynnig amlinelliad o'r dystiolaeth a awgrymwyd hyd yn hyn. Roedd y ddogfen yn crynhoi'r sefyllfa bresennol a byddai'n dylanwadu ar drafodaethau yn y dyfodol ynglŷn â blaenoriaethau'r Cynllun Llesiant.

Yn dilyn y drafodaeth, cytunodd y partneriaid y gallai'r fersiwn o'r Cynllun Llesiant a gyflwynwyd gael ei defnyddio ar gyfer yr ymgynghoriad. Gofynnwyd i'r partneriaid ddefnyddio trefniadau eu mudiadau eu hunain i hysbysebu'r ddogfen. Dwedodd NE y byddai fersiwn ddiwygiedig ar gael yn y cyfarfod nesaf yn ogystal â'r adroddiad a grybwyllwyd uchod. Byddai unrhyw ychwanegiadau perthnasol yn cael eu cynnwys cyn y cyfarfod a byddai unrhyw faterion cynhennus yn cael eu cyflwyno gerbron y Bwrdd i'w trafod. Nododd hefyd fod bylchau penodol mewn ymgysylltu, er enghraifft gyda phlant a phobl ifanc, ac y byddai cynllun ymgysylltu parhaus gyda grwpiau fel rhain yn cael ei ddatblygu'n y dyfodol. Soniodd SL am drefniadau ymgysylltu blaenorol oedd yn bodoli o dan LSB a chytunwyd y dylid trafod cyfleoedd ymgysylltu ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

NE ar  
gyfer yr

Gofynnwyd i'r partneriaid anfon newidiadau brys at NE fel y trafodwyd erbyn dydd Gwener 3 Chwefror. Dylai newidiadau manwl gael eu cyflwyno fel rhan o'r broses ymgynghori.

PAW  
D

#### 5. Asesiad o'r Boblogaeth

Rhoddodd Martyn Palfreman, Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol gyda Chyngor Sir Gaerfyrddin, gyflwyniad i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar Asesiad o'r Boblogaeth a Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru. Rhoddodd fanylion ar y Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru), gan gynnwys anghenion creu trefniadau partneriaeth ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol er mwyn goruchwyllo cyflawni gofal a chymorth yn eu hardal. Roedd Byrddau Partneriaeth Ranbarthol wedi cael eu creu i ryddhau ystod o swyddogaethau statudol a Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru sy'n cael ei ddarparu gan ardal Hywel Dda. Roedd y Bwrdd yn cael arian gan ddwy ffrwd wahanol, gan gyllid trawsnewid Llywodraeth Cymru a hefyd gan y Gronfa Gofal Canolraddol. Rhoddodd MP fanylion am yr angen i gynhyrchu asesiadau o'r boblogaeth a beth oedd prif gasgliadau Asesiad o'r Boblogaeth a Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru. Cymharodd yr anghenion yn ôl y Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Yn olaf, nododd fod angen Cynlluniau Ardaloedd Rhanbarthol yn ôl Adran 14A y Ddeddf a bod rhaid cyhoeddi'r Cynllun cyntaf erbyn mis Ebrill 2018, sef yr un amserlen â'r Cynllun Llesiant. Felly, roedd angen yn ogystal â chyfle am alinio strategol rhwng y ddau gynllun a chydlynu gweithgareddau gan y byddai angen ymateb mwy eang gan y bartneriaeth ynglŷn â rhai o'r materion ehangach a amlygwyd yn yr Asesiad o'r Boblogaeth. Golygai hyn y byddai'r berthynas rhwng y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn hanfodol.

Diolchodd BR i MP am ei gyflwyniad. Byddai'r cyflwyniad yn cael ei ddsbarthu i'r partneriaid er gwybodaeth.

LR

## **6. Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod**

Rhoddodd Liz Western, Swyddog Hŷn Iechyd Cyhoeddus i Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyflwyniad ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Holwyd 2,000 o oedolion am eu profiadau cyn eu bod yn 18 mlwydd oed a'u hiechyd fel oedolion ac amlinellodd canlyniadau'r astudiaeth y cysylltiad rhwng profiadau negyddol yn ystod plentyndod a'r effaith tymor hir y gallai'r profiadau negyddol hyn gael ar iechyd person. Eglurodd LW fod mai Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod oedd profiadau bywyd cythryblus sy'n cynnwys niwed uniongyrchol i blentyn (e.e. geiriol, corfforol a/neu rywiol) neu niwed sy'n effeithio ar yr awyrgylich maent yn byw ynddo (e.e. byw mewn tŷ ble mae trais yn y cartref, cam-drin alcohol, rhieni'n gwahanu, salwch meddwl, defnyddio cyffuriau a rhieni yn y carchar). Roedd yr holiadur wedi datgelu bod bron i un o bob saith oedolyn yng Nghymru wedi profi pedwar neu fwy o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac oddeutu hanner ohonynt wedi profi o leiaf un. Roedd gan y profiadau hyn gysylltiadau uniongyrchol ag ymddygiad sy'n niweidio iechyd fel ysmegu neu gam-drin cyffuriau a hefyd â llesiant meddyliol, ac y gallai atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod leihau'r ymddygiadau hyn yn sylwadau. Dwedodd LW fod Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn gyffredin ond yn fwy cyffredin mewn ardaloedd difreintiedig ble roedd llai o wytnwch i wrthweithio eu heffeithiau. Roedd delio â'r broblem yn brydlon a chynlluniau rhieni'n arfau hanfodol i atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Nododd hefyd nad effeithio ar iechyd yn unig y byddai atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ei wneud ond y byddai hefyd yn effeithio ar addysg, troseddu treisgar, ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion cymdeithasol eraill

Diolchodd BR i LW am ei chyflwyniad addysgiadol a dwedodd fod digon i gnoi cil arno. Byddai'r cyflwyniad ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod hefyd yn cael ei ddsbarthu i'r partneriaid er gwybodaeth.

LR

## **11. Unrhyw Fusnes Arall**

Dosbarthodd SPJ gopïau o gais cyfrinachol, ac roedd yn gobeithio cael cefnogaeth mewn egwyddor gan aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Nododd y byddai adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 13 Chwefror. Cytunodd y partneriaid i gefnogi'r cynnig fel y gofynnwyd iddyn nhw ei wneud.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.25pm.